Gwybodaeth i ymgeiswyr ar gyfer TAR Uwchradd Daearyddiaeth

Llongyfarchiadau!
Rydych wedi'ch gwahodd i gyfweliad ar gyfer lle ar y rhaglen TAR Uwchradd Daearyddiaeth ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd – rydym yn edrych ymlaen yn fawr iawn i gael cwrdd â chi a chael clywed am yr hyn sydd gennych i'w gynnig yn ddarpar athro Daearyddiaeth uwchradd. Bydd y llythyr hwn yn rhoi gwybodaeth i chi am yr hyn y gofynnir i chi ei wneud yn ystod diwrnod y cyfweliad a bydd hefyd yn rhoi syniad clir i chi ynglŷn â'r hyn rydym yn chwilio amdano mewn darpar athro Hanes/ Daearyddiaeth/Addysg Grefyddol. Mae wedi'i ddylunio i'ch helpu i baratoi yn unol â hynny, i chi fod â'r cyfle gorau posib i fod yn llwyddiannus.

Bydd pedair rhan i'r broses gyfweld, a allai gael eu cynnal mewn trefn wahanol i'r un a nodir.

Rhan 1
Byddwch yn gwneud profion mewn llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol. Bydd tasg ysgrifennu estynedig hefyd yn ymateb i erthygl ar bwnc addysgol er mwyn asesu eich sgiliau darllen ac ysgrifennu. Byddwch yn derbyn yr erthygl cyn y diwrnod i chi gael paratoi, felly daliwch ar y cyfle i'w darllen yn drylwyr ac i ddeall y prif bwyntiau. Bydd y rhan hon o'r diwrnod yn para tua dwy awr.

Rhan 2
Byddwch yn cymryd rhan mewn tasg addysgu ymarferol. Rydym yn eich gwahodd i baratoi episod addysgu byr iawn – dim mwy na 5 munud. Mae'n debygol y byddwch yn addysgu grŵp bach iawn o gyd-ymgeiswyr, chwech ar y mwyaf. Dylech geisio addysgu elfen o bwnc oddi ar fanyleb TGAU CBAC ar gyfer Hanes/Daearyddiaeth/Addysg Grefyddol. Ymhlith rhai themâu posib mae:

- Effaith Cwymp Wall Street ar yr economi yn yr Almaen
- Beth sy'n gwneud tirweddau yn nodedig yng Nghymru?
- Ymagweddau gorchymyn dwyfol/absoliwtiaeth sefyllfaol /perthynolaidd a moeseg rhinwedd tuag at wneud penderfyniadau moesegol

Byddwn yn chwilio am:

- dull apelgar, brwdfrydig
- y meddwl gafodd ei roi i baratoi eich sesiwn
- gwybodaeth a dealltwriaeth sicr o'ch pwnc
- cyflwyno gwybodaeth/syniadau yn glir.

D.S. Does dim disgwyl i chi ddarparu cynllun gwers

TopTip

1. Cadwch bethau'n syml! Dydyn ni ddim yn chwilio am wers berffaith, dim ond eich potensial, felly bydd rhywbeth bach â ffocws yn ddelfrydol. Dim ond 5 munud fydd gennych!

2. Dewiswch bwnc rydych yn teimlo'n hyderus ac yn gyffyrddus yn ei gylch – cofiwch rydym yn awyddus i weld beth gallwch ei wneud ac nid beth na allwch ei wneud!

3. Ewch amdani…a mwynhewch!

Os byddwch yn bwriadu defnyddio adnoddau ar gyfer eich episod addysgu byr, bydd rhaid i chi eu darparu nhw i gyd, felly byddwch yn barod i ddod â nhw gyda chi. Mae'n werth nodi hefyd **na fydd cyfleusterau TG neu PowerPoint ar gael**.

Rhan 3
Gofynnir i chi gymryd rhan mewn trafodaeth fer (tua 10-15 munud) gyda'r ymgeiswyr eraill. Ni fydd angen i chi baratoi ar gyfer hyn gan y rhoddir y pwnc i chi ar y dydd.

Bydd **Rhan 4** yn cynnwys cyfweliad unigol byr pryd y gallwch esbonio eich cymhellion i ddod yn athro hanes/daearyddiaeth/Addysg Grefyddol uwchradd, a dangos faint rydych yn deall rôl yr athro mewn

ysgol brif ffrwd. Cewch gyfle hefyd i ofyn cwestiynau i ni fel y gallwch wneud dewis gwybodus. Rydym am gael cyfle hefyd i sôn wrthych am ein prifysgol a'n rhaglen TAR Uwchradd gan ein bod yn credu bod llawer gennym i'w gynnig i athro dan hyfforddiant sy'n llawn awydd a dyhead ac rydym yn teimlo'r un mor gyffrous â chithau ynglŷn â'ch dyfodol.

Edrychwn ymlaen i gael cwrdd â chi yn y cyfweliad a dymunwn bob hwyl i chi ar y diwrnod. A wnewch chi gyrraedd 15 munud cyn yr amser a nodwyd er mwyn i ni gael dechrau'r rhaglen yn brydlon.

Dymuniadau gorau
Mark Williams
Arweinydd Rhaglen TAR Uwchradd Hanes
Prifysgol Metropolitan Caerdydd

TEF Silver Teaching Excellence Framework

FfRhA Arian Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu

Met Caerdydd yw'r darparwr TAR Uwchradd mwyaf yng Nghymru ac un o'r mwyaf yn y DU. Yn ogystal, mae'n un o 4 prifysgol yn unig i gael eu hachredu ar gyfer Addysg Gychwynnol i Athrawon yng Nghymru o fis Medi 2019: https://www.ewc.wales/site/index.php/en/ite-accreditation/providers-of-initial-teacher-education-in-wales-from-2019.html

I gael rhagor o wybodaeth am ein cwrs, ewch i:
http://www.cardiffmet.ac.uk/education/courses/Pages/Secondary-PGCE.aspx

Arolwg Profiad a Addysgwyd Uwchraddedigion

Postgraduate Taught Experience Survey

Ansawdd y dysgu a'r addysgu - 90%

Boddhad â'r cwrs - 92%

Boddhad â'r lleoliadau ysgol - 98%

Cyfradd lwyddo 100%

Mae 95% o'n hathrawon dan hyfforddiant yn cael swydd yn y sector (Arolwg DHLE 16/17)